# Safon Uwch Celfyddyd Gain (Amser Llawn)

Mae'r Lefel UG / Lefel A mewn Celf Gain yn rhaglen gyffrous, eang a dwys, wedi'i lleoli yn yr Academi Chweched Dosbarth (SFA) ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno archwilio ac arbrofi mewn Celf Gain.

Mae'r cwrs yn gyfle i archwilio cyfryngau, deunyddiau a thechnegau newydd mae disgyblaethau allweddol yn cynnwys lluniadu, paentio, gwneud printiau a chyfryngau cymysg. Bydd gofyn i chi ddadansoddi'ch gwaith chi a gwaith eraill a ddewiswyd o'r byd Celf Gyfoes a Hanesyddol.

Byddwch yn dysgu mwy o sgiliau dehongli a gwerthuso trwy ymgolli mewn prosiectau sy'n dod yn fwyfwy dan arweiniad myfyrwyr wrth i chi ddewis eich themâu a'ch meysydd i'w hymchwilio. Mae Celf Gain yn elfen arbenigol bwysig ar gyfer gyrfa Celf a Dylunio ehangach.

Ymgeisio am Lefelau UG neu Lefel A? Cliciwch 'Gwnech Gais Nawr' ar unrhyw UN o'r pynciau y mae gennych ddiddordeb mewn eu hastudio. Llenwch y ffurflen gais ar-lein, lle gofynnir i chi nodi'ch dau ddewis arall. Yna archebwch apwyntiad Cyfweliad i gwrdd â'r tiwtoriaid a thrafod y dewisiadau sydd orau gennych.

## Gofynion Mynediad

Chwech TGAU Gradd C neu uwch gan gynnwys Saesneg. Rhaid cynnwys TGAU Celf a Dylunio ar Radd C neu'n uwch.

## Rhagolygon Gyrfa

Gellir cyfuno Celf Gain â naill ai pynciau Celfyddydau neu Wyddoniaeth sy'n darparu cyfleoedd gyrfa mewn amrywiaeth o feysydd o Argraffu / Cyfryngau, Darlunio, Teledu, Ffilm a Fideo, Dylunio gyda Chymorth Cyfrifiadur, Tecstilau, Ffotograffiaeth, Gwydr Lliw, Ieuenctid a Gwaith Cymunedol, Pensaernïaeth, a Rheolaeth y Celfyddydau.

Opsiynau gyrfa eraill yw Addysg, Therapi Celf, Beirniadaeth a Newyddiaduraeth.

## Costau Ychwanegol

Bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â chwrs.

## DULL ASTUDIO

FT

## LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 0330 818 8100

Coleg Y Drenewydd - 0330 818 8100

## HYD Y CWRS

2Y